


Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr: Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026-31

Cyfrol 1: Trosolwg, crynodeb a strwythur

Datganiad

Cyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2026



Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
-------------------	---

1. Trosolwg

- 1.1 **Mae'r ddogfen hon yn nodi penderfyniadau Ofcom ar gyfer rheoleiddio'r marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog sy'n sail i gysylltiadau band eang, symudol a busnes, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031. Mae ein gwaith rheoleiddio wedi'i gynllunio i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau o safon sy'n gallu delio â gigabits – gan ddod â band eang cyflymach a gwell i bobl ledled y DU.**¹
- 1.2 Mae mynediad at rwydweithiau diogel a dibynadwy, o safon yn ganolog i bob agwedd ar ein bywydau digidol ac yn sbardun allweddol ar gyfer twf economaidd. Dyna pam mae sicrhau bod gan bobl a busnesau fynediad at rwydweithiau a gwasanaethau o safon, sy'n ffeibr llawn ac yn gallu delio â gigabits, yn flaenoriaeth i Ofcom. Mae'r adolygiad hwn o'r farchnad yn rhan bwysig o'n rhaglen waith i gyflawni'r flaenoriaeth hon.
- 1.3 Ein strategaeth ers 2016 oedd hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits drwy gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau mewn ardaloedd lle mae hyn yn ymarferol. Mae buddsoddi mewn rhwydweithiau cyflymach a mwy dibynadwy o fudd uniongyrchol i ddefnyddwyr a busnesau sy'n defnyddio'r rhwydweithiau hyn ar gyfer gwaith, cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus ac adloniant, ac mae'n cynnig mwy o wydnwch wrth i'r ddibyniaeth ar y gwasanaethau hyn barhau i dyfu. Mae hyn hefyd yn sbarduno twf economaidd, gan gefnogi arloesedd a chynhyrchiant uwch ar draws pob sector o'r economi, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyflwyno technolegau newydd ac ar gyfer trawsnewid y sector cyhoeddus. Yn anad dim, mae cysylltedd o ansawdd uchel yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu rhaglenni deallusrwydd artifisial. Dylai'r gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau rydym yn ceisio ei hyrwyddo hefyd ddod â manteision tymor hwy o arloesi, dewis, a chymhellion cryfach i brisio'n ddoeth i ddenu cwsmeriaid a gwella ansawdd y gwasanaeth ymhellach.
- 1.4 Yn yr Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol 2021, fe wnaethom sefydlu fframwaith rheoleiddio manwl gyda'r nod o hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn unol â'n strategaeth.² Fe wnaethom hefyd gydnabod bod natur hirdymor buddsoddiadau mewn rhwydweithiau yn gofyn am sefydlogrwydd rheoleiddiol ac felly pennwyd disgwyliadau ynghylch rheoleiddio yn y dyfodol hyd at 2031 a thu hwnt. Mae'r broses o adolygu'r farchnad yn mynnu ein bod yn adolygu'r marchnadoedd perthnasol bob pum mlynedd gan ystyried datblygiadau diweddar a phosibl yn y farchnad, ond ein penderfyniadau yn 2021 yw'r man cychwyn ar gyfer yr adolygiad hwn.
- 1.5 Ers 2021, rydym ni wedi gweld Openreach ac amrywiaeth eang o gwmnïau eraill yn adeiladu'n sylweddol, gan roi'r DU ar y trywydd iawn i sicrhau bod rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits ar gael yn eang. Mae ein fframwaith rheoleiddio wedi bod yn sail i fuddsoddiad mewn ffeibr llawn o £3-6bn y flwyddyn, ac mae'r buddsoddiad yn dal i fynd rhagddo. Ers mis Mai 2021, mae nifer y safleoedd sydd â mynediad at ffeibr llawn wedi cynyddu o 6.9m o safleoedd (24%) i 23.7m (78%) ym mis Gorffennaf 2025, ac mae

¹ Mae rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits fel arfer yn cyfeirio at rwydweithiau sy'n defnyddio ffeibr i'r adeilad (FTTP), a elwir hefyd yn rhwydweithiau ffeibr llawn a rhwydweithiau cebl sy'n gallu cynnig gwasanaethau sydd â chyflymder lawrlwytho o 1 Gbit yr eiliad o leiaf.

² Ofcom. 18 Mawrth 2021. [Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol 2021-26.](#)

darpariaeth rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits wedi cynyddu o 11.6m o safleoedd (40%) i 26.4m o safleoedd (87%).³ Mae'r lefel adeiladu hon yn fwy na'r hyn roeddem yn ei ddisgwyl yn 2021, gan roi mynediad i fwy byth o ddefnyddwyr a busnesau at rhwydweithiau o safon sy'n gallu delio â gigabits am brisiau cynyddol ddeniadol. Mae hyn wedi eu galluogi i elwa o wasanaethau newydd ac arloesol sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi twf economaidd.⁴

Tabl 1: Nifer y safleoedd preswyl yn y DU sydd â darpariaeth rhwydweithiau ffeibr llawn a rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits

	Mai 2021	Gorffennaf 2025
Darpariaeth rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits	11.6m (40%)	26.4m (87%)
Darpariaeth rhwydweithiau ffeibr llawn	6.9m (24%)	23.7m (78%)

- 1.6 Mae adeiladu gan rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd wedi arwain hefyd at gynnydd sylweddol yn nifer y safleoedd sydd â dewis o rwydwaith, gyda 75% o safleoedd nawr yn gallu cael mynediad at o leiaf ddau rwydwaith (un rhwydwaith gan ddarparwr arall yn ychwanegol at Openreach), ac mae gan 29% o safleoedd fynediad at o leiaf dri rhwydwaith.⁵
- 1.7 Mae manteision y buddsoddiad hwn a datblygu cystadleuaeth yn cael eu teimlo'n barod. Mae defnyddwyr yn manteisio fwyfwy ar ffeibr llawn, gyda'r nifer a oedd yn ei ddefnyddio yn codi i 42% o'r safleoedd lle mae ffeibr llawn ar gael, ym mis Gorffennaf 2025, o'i gymharu â 24% yn 2021.⁶ Mae defnyddwyr a'u darparwyr band eang yn manteisio hefyd ar y dewis cynyddol sydd ar gael iddynt drwy symud i rhwydweithiau newydd, gydag oddeutu chwarter y cysylltiadau ffeibr llawn bellach yn cael eu darparu gan rhwydweithiau amgen.⁷ O ganlyniad, mae Openreach yn gorfod cystadlu â rhwydweithiau eraill erbyn hyn.⁸ Mae defnyddwyr yn elwa hefyd o brisiau mwy deniadol a mwy o ddewis o wasanaethau wrth i rhwydweithiau amgen ac Openreach geisio denu cwsmeriaid. Mewn llawer o achosion, gall cwsmeriaid symud i wasanaeth band eang ffeibr llawn cyflymach a mwy dibynadwy a

³ Ofcom. 16 Rhagfyr 2021. [Cysylltu'r Gwledydd 2021](#), a 19 Tachwedd 2025. [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2025](#). Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ddarpariaeth safleoedd preswyl.

⁴ Mae prisiau cyfartalog termau real bob mis ar gyfer gwasanaethau sy'n gallu delio â gigabits wedi disgyn o dros £60 y mis ym mis Medi 2021 i £35-£45 y mis ym mis Medi 2025. Yn seiliedig ar brisiau rhestr a phrisiau hyrwyddo ar gyfer gwasanaethau ffeibr llawn a gwasanaethau cebl annibynnol. Ofcom 26 Chwefror 2026. [Tueddiadau priso gwasanaethau cyfathrebu](#), Ffigur 18.

⁵ Mae ffigurau Openreach yn cynrychioli darpariaeth ei holl rhwydweithiau, gan gynnwys gwasanaethau copr yn ogystal â ffeibr llawn. Bydd rhwydweithiau'r darparwyr eraill yn gallu delio â gigabits. Safleoedd preswyl. Ofcom. 18 Tachwedd 2025. [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2025](#).

⁶ Ofcom. 18 Tachwedd 2025. [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2025](#). Safleoedd preswyl a masnachol. Ofcom. 16 Rhagfyr 2021. [Cysylltu'r Gwledydd 2021: Adroddiad y DU](#)

⁷ Mae Point Topic yn adrodd ffigurau Ch3 2025, sef 3.02m o gysylltiadau ffeibr llawn rhwydweithiau amgen a chyfanswm o 11.56m o gysylltiadau ffeibr llawn. [Q3 2025 UK ISP and network supplier metrics - a market overview](#) cyrchwyd 3 Mawrth 2026. Gweler hefyd Adroddiad Blynnyddol INCA 2026, Ffigur 3. 'Assembly x Point Topic for INCA'. 11 Mawrth 2026. [State of the Altnets: INCA Annual Report 2026](#). Cyrchwyd 11 Mawrth 2026

⁸ Ffynhonnell. Collodd Openreach 2 filiwn o linellau rhwng dechrau blwyddyn ariannol 2023/4 a mis Rhagfyr 2025 wrth i gwsmeriaid symud i rhwydweithiau eraill sy'n gallu delio â gigabits. Colledion Openreach o ran llinellau yn ôl BT. [Results centre - Financial reporting & news - Investors | BT Plc](#) cyrchwyd 9 Chwefror 2026

thalu'r un faint, neu lai, nag y maent yn ei dalu ar hyn o bryd am wasanaeth copr neu rannol ffeibr.

- 1.8 Rydym yn cydnabod y camau breision a gymerwyd gan y diwydiant o ran cyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn, ynghyd â'r datblygiadau sylweddol yn y dirwedd gystadleuol, ers 2021. Ond mae mwy i'w wneud. Mae angen rhagor o fuddsoddiad i ddarparu gwasanaethau ffeibr llawn o ansawdd uchel i fwy o'r DU. Ar ben hynny, nid yw cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau wedi datblygu i'r fath raddau fel nad oes gan Openreach bŵer sylweddol yn y farchnad fel y gallem gael gwared ar yr holl reoleiddio cyfanwerthol yn y farchnad band eang.
- 1.9 Mae denu cwsmeriaid o hen rwydweithiau i ffeibr llawn yn allweddol i lwyddiant pob darparwr, ac i sicrhau bod manteision rhwydweithiau ffeibr llawn yn cael eu gwireddu ar gyfer defnyddwyr, busnesau a'r economi, a chymdeithas yn fwy eang. Ar gyfer rhwydweithiau amgen, mae'r nifer sy'n eu defnyddio yn sail i'w gallu i sicrhau cyfyngiad cystadleuol cryf yn y tymor hir. Mae'n cymryd amser i rwydweithiau newydd adeiladu sylfaen cwsmeriaid a thyfu ac i gystadleuaeth ymsefydlu a dod yn gynaliadwy. Mae rhwydweithiau amgen yn dal i wynebu heriau sylweddol wrth oresgyn manteision hirhoedledd Openreach i gyflawni hyn. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y defnydd o rwydweithiau amgen, sydd tua 18% ar gyfartaledd, o'i gymharu â defnydd Openreach o tua 38%.⁹
- 1.10 Wrth wneud ein penderfyniadau, rydym wedi ystyried nid yn unig fuddiannau defnyddwyr a busnesau'r presennol, ond hefyd y buddsoddiad, yr arloesi a'r gystadleuaeth sydd eu hangen i gyflawni ar eu cyfer yn y dyfodol. Rydym am weld cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn parhau i ddatblygu lle mae hyn yn gynaliadwy a lle mae'n sicrhau manteision i ddefnyddwyr. Gan fod nifer y defnyddwyr yn allweddol, mae'n bwysig bod ein gwaith rheoleiddio'n cynnig cyfle i rwydweithiau amgen cymharol effeithlon gystadlu a chynyddu nifer eu defnyddwyr yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae angen i Openreach hefyd allu cystadlu, ar yr amod ei fod yn gwneud hynny'n deg, ac mae angen i'n dulliau rheoleiddio fod yn ddigon hyblyg i addasu wrth i amodau'r farchnad esblygu dros y 5 mlynedd nesaf.
- 1.11 Rydym hefyd eisiau parhau i hyrwyddo gweithgareddau masnachol effeithlon gan Openreach a rhwydweithiau amgen er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ymhellach yn yr ardaloedd sy'n weddill, sy'n anoddach eu cyrraedd. Mae cyflymder y gwaith adeiladu wedi amrywio ar draws y DU, gyda Gogledd Iwerddon yn gweld y fwyaf yn cael ei gyflwyno, sef 95% o safleoedd yn cael eu pasio gan ffeibr llawn yn seiliedig ar gyfuniad o fuddsoddiad preifat a chyhoeddus. Fe'i dilynwyd gan Loegr ar 79%, Cymru ar 78% a'r Alban ar 71%.¹⁰ Er bod ein penderfyniadau'n ceisio hyrwyddo rhagor o fuddsoddiad gan y sector preifat mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits, mae hyn yn annhebygol o ddarparu ym mhobman, ac efallai na fydd ardaloedd gwledig mwy anghysbell yn gweld yr un buddsoddiad ag ardaloedd mwy trefol. Felly, yn ogystal â hyrwyddo buddsoddiad

⁹ Defnydd o Openreach ym mis Medi 2025. BT Group. 6 Tachwedd 2025. [FY26 financial results & briefings - Half year to September 2025](#). Defnydd o rwydweithiau amgen yn ôl Adroddiad Blynyddol INCA 2026, Ffigur 2. 'Assembly x Point Topic for INCA'. 11 Mawrth 2026. [State of the Altnets: INCA Annual Report 2026](#). Cyrchwyd 11 Mawrth 2026

¹⁰ Ofcom. 19 Tachwedd 2025. [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2025](#). Mae'r ffigur hwn yn gysylltiedig ag eiddo preswyl.

masnachol, mae ein gwaith rheoleiddio yn ategu cynlluniau cyllid cyhoeddus sy'n ceisio darparu band eang o safon i ardaloedd nad yw'r rhwydweithiau hyn yn eu cyrraedd fel arall.

- 1.12 Mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi £5bn yn ei chynllun Prosiect Gigabit i roi cymhorthdal i'r broses o gyflwyno rhwydweithiau yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd ledled y DU. Mae wedi dyfarnu dros 30 o gontractau. Erbyn mis Medi 2025, roedd ychydig dros 1.3m o safleoedd wedi cael darpariaeth sy'n gallu delio â gigabits drwy raglenni gigabit BDUK ers iddynt gael eu sefydlu.¹¹ Yn yr Alban, ym mis Tachwedd 2025, mae rhaglen Reaching 100% (R100) wedi darparu dros 94,000 o gysylltiadau, gan gynnwys dros 5,000 drwy Gynllun Talebau Band Eang yr Alban.¹² Roedd cynllun band eang Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Project Stratum, wedi cyrraedd dros 81,000 o safleoedd gwledig yn bennaf erbyn i'r prosiect ddod i ben ym mis Mehefin 2025.¹³ Cwblhawyd prosiect Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru yn 2023 ar ôl cysylltu 44,000 o gartrefi a busnesau.¹⁴
- 1.13 Y tu hwnt i'r cynlluniau hyn sy'n cael arian cyhoeddus ar gyfer rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits, rydym yn disgwyl i dechnolegau di-wifr chwarae rôl gynyddol bwysig yn y gwaith o ddarparu cysylltedd cyflymach i ddefnyddwyr mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd. Mae mynediad di-wifr sefydlog a gwasanaethau lloeren newydd yn debygol o fod yn arbennig o bwysig o ran darparu gwasanaethau cyflymach i ddefnyddwyr yn y lleoliadau mwyaf anodd eu cyrraedd am gost is.
- 1.14 Yn yr adolygiad hwn, rydym hefyd yn ystyried gwasanaethau llinellau ar brydles, sef cysylltiadau capasiti uchel a ddefnyddir gan fusnesau mawr a rhwydweithiau eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn hanfodol i helpu busnesau i ddiwallu eu hanghenion cyfathrebiadau ac i ddarparu eu cysylltedd â'r rhyngwrwd ac â gwasanaethau yn y cwmwl. Maent hefyd yn cael eu defnyddio gan weithredwyr rhwydweithiau sefydlog a symudol i ddarparu cysylltedd fel rhan o'u rhwydweithiau eu hunain, gan gynnwys gan weithredwyr rhwydweithiau symudol i gysylltu â'u safleoedd cell. Felly maent yn bwysig o ran cefnogi gwasanaethau ar gyfer pob defnyddiwr ledled y DU. Yn 2021, roeddem wedi ceisio hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau sy'n darparu llinellau ar brydles (yn ogystal â'r rheini sy'n darparu gwasanaethau band eang) ac rydym wedi gweld twf sylweddol gan ddarparwyr sy'n canolbwyntio ar fusnes, ac mae rhai darparwyr eraill sy'n cefnogi gwasanaethau band eang a llinellau ar brydles hefyd yn ceisio cystadlu. Rydym am barhau i hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau lle bo hynny'n ymarferol er mwyn darparu gwell cysylltedd, gwasanaeth o safon uwch a phrisiau is ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn, ochr yn ochr â diogelu defnyddwyr mewn ardaloedd lle nad yw'r gystadleuaeth yn debygol o gyflawni'r canlyniadau da hyn ar ei phen ei hun.
- 1.15 Mae ein penderfyniadau yn yr adolygiad hwn wedi'u crynhoi isod.¹⁵

¹¹ Llywodraeth y DU. 13 Tachwedd 2025. [BDUK delivery performance, quarterly: April 2025 to Sept 2025](#)

¹² Llywodraeth yr Alban. [About Reaching 100%](#) Cyrchwyd 6 Mawrth 2026

¹³ Adran yr Economi [Project Stratum](#). Cyrchwyd 6 Mawrth 2026

¹⁴ Llywodraeth Cymru. 6 Rhagfyr 2023. [Gall degau o filoedd o gartrefi a busnesau gael mynediad at gyflymder gigabit wrth i brosiect cyflwyno band eang ffeibr llawn gyrraedd y tu hwnt i'w dargedau](#). Cyrchwyd 6 Mawrth 2026.

¹⁵ Yn yr adolygiad hwn rydym yn ystyried y DU gyfan ac eithrio Ardal Hull. KCOM yw'r darparwr presennol yn Ardal Hull, felly rydym yn adolygu'r marchnadoedd perthnasol yn Ardal Hull mewn adolygiad marchnad ar wahân.

Ein penderfyniadau – yn gryno

Rydym wedi dod i'r casgliad bod gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad (SMP) mewn nifer o farchnadoedd, ac felly rydym yn gosod fframwaith rheoleiddio i fynd i'r afael â phryderon y gystadleuaeth sy'n codi o ganlyniad.¹⁶ Mae ein hatebion fwy neu lai'r un fath ag yn ein hadolygiad diwethaf, ac eithrio lle mae datblygiadau diweddar neu bosibl yn y farchnad yn dangos bod angen diweddariad i roi sefydlogrwydd rheoleiddiol a chynnal cymhellion ar gyfer buddsoddi a chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Dyma ein penderfyniadau:

Cynnal mynediad at bolion telegraff a phibellau tanddaearol Openreach: Rydym wedi penderfynu y bydd Openreach yn dal i orfod caniatáu i bob gweithredwr rhwydwaith ddefnyddio a gweithredu ei rwydwaith ffeibr ei hun gan ddefnyddio ei seilwaith drwy ei gynhyrchion Mynediad Seilwaith Ffisegol (PIA). Er mwyn sicrhau tegwch rhwng Openreach a gweithredwyr rhwydwaith eraill, bydd Openreach yn parhau i fod yn ddarostyngedig i rwymedigaeth lem sy'n atal gwahaniaethu amhriodol a dylai'r ffioedd a delir gan weithredwyr eraill adlewyrchu cyfran deg o gostau Openreach, ar sail eu defnydd o seilwaith Openreach. Er bod ein hagwedd at ffioedd rhentu PIA yn cyd-fynd yn fras â'r hyn a nodwyd yn 2021, rydym wedi gwneud rhai addasiadau i sicrhau bod tegwch. Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus p'un a ddylid mynnu bod Openreach yn cynnig strwythur prisio amgen i leihau costau PIA ar gyfer cyflwyno rhwydweithiau mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod ein dull gweithredu presennol yn sicrhau prisiau teg a'i fod wedi bod yn effeithiol o ran hyrwyddo gwaith adeiladu rhwydweithiau ar draws ardaloedd trefol a gwledig, gan gynnwys ei gyflwyno gyda chefnogaeth cynlluniau cyllid cyhoeddus.

Parhau â'n dull o reoleiddio band eang cyfanwerthol yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r DU, i adlewyrchu'r potensial ar gyfer cystadleuaeth effeithiol rhwng rhwydweithiau:

Rydym yn cydnabod bod amodau cystadleuol yn wahanol ledled y DU ar gyfer cyflenwi gwasanaethau band eang cyfanwerthol, ac felly rydym yn cynnal ein dull gweithredu cyffredinol yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol gwahanol i adlewyrchu hyn. Rydym wedi gweld buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau ers 2021 gan gystadleuwyr Openreach, ac felly rydym wedi ystyried yr amodau cystadleuol yn ofalus mewn ardaloedd lle mae dau rwydwaith wedi cael eu hadeiladu yn ychwanegol at Openreach. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu peidio â diffinio hyn fel marchnad ddaearyddol ar wahân (h.y. 'Ardal 1'). Felly rydym wedi diffinio dwy ardal ddaearyddol wahanol:

- *Ardal 2, lle mae cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy yn barod, neu lle mae'n debygol y bydd potensial ar gyfer hynny. Mae'r ardal hon wedi cael ei hehangu o 70% i gwmpasu 86% o safleoedd y DU, gan adlewyrchu gwaith adeiladu mwy eang (gwirioneddol ac wedi'i gynllunio) gan rwydweithiau amgen nag a ragwelwyd yn 2021. Yn yr ardal hon rydym yn parhau i bennu rheoliadau sy'n hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth gan ddarparu eraill (gan gynnwys cynnal amgylchedd rheoleiddio sefydlog ar gyfer y buddsoddiadau hynny sydd eisoes wedi'u gwneud), ar yr un pryd â darparu diogelwch i ddefnyddwyr wrth i gystadleuaeth ddatblygu. Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau i osod prisiau unffurf wedi'u haddasu yn ôl chwyddiant ar gyfer cynnyrch band eang cyflym iawn sylfaenol, gan ganiatáu hyblygrwydd o ran prisiau ar gyfer gwasanaethau cyflymder eraill. Rydym wedi penderfynu gwneud hyn drwy reoli ffioedd. Er mwyn sicrhau bod y cap hwn ar*

¹⁶ Mae ein cynigion SMP yn berthnasol i BT Group. Fodd bynnag, mae'r marchnadoedd rydym wedi'u hystyried yn ymwneud â gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Openreach. Felly, yn y crynodeb hwn rydym yn cyfeirio at Openreach wrth nodi ein hatebion arfaethedig.

brisiau yn parhau i fod yn effeithiol, rydym yn cynnig symud o reoleiddio cynhyrchion Openreach sy'n cefnogi cyflymderau lawrlwytho o hyd at 40 Mbit yr eiliad, i'r rheini sy'n cefnogi hyd at 80 Mbit yr eiliad. Byddai hyn yn unol â newidiadau yn y farchnad sy'n cael eu sbarduno gan y ffaith bod defnyddwyr yn defnyddio mwy a mwy o ddata.

- Ardal 3, lle nad oes cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy, a lle mae'n debygol nad oes potensial ar gyfer hynny. Yn y 14% sy'n weddill o'r DU, byddwn yn parhau i roi cyfle i Openreach adennill costau rhesymol ei fuddsoddiadau o ran cyflwyno ei rwydwaith ffeibr llawn yn fasnachol, ond yn cydnabod y rôl bwysig y bydd cymhorthdal cyhoeddus yn ei chwarae o ran cyflwyno rhwydweithiau yn yr ardal hon. Rydym hefyd yn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth ar sail mynediad at rwydwaith Openreach er mwyn diogelu defnyddwyr. Fel yn Ardal 2, rydym wedi penderfynu symud y gwaith o reoleiddio'r cap prisiau o gynhyrchion Openreach sy'n cefnogi cyflymderau lawrlwytho o hyd at 40 Mbit yr eiliad i'r rheini sy'n cefnogi hyd at 80 Mbit yr eiliad, a gosod prisiau unffurf, wedi'u haddasu yn ôl chwyddiant, ar gyfer y cynhyrchion hyn.¹⁷

Prisiau cyfanwerthol teg ar gyfer Openreach a rhwydweithiau eraill: Er y dylai ein gwaith rheoleiddio ganiatáu i Openreach wneud ei wasanaethau ffeibr llawn yn ddeniadol yn gystadleuol i'w gwsmeriaid Darparwyr Gwasanaethau Rhynggrwyd, rydym wedi penderfynu cadw'r cyfyngiadau ar gytundebau a allai lesteirio buddsoddiad a datblygu cystadleuaeth gynaliadwy rhwng rhwydweithiau. Yn benodol, byddwn yn parhau i gyfyngu ar allu Openreach i bennu gostyngiadau daearyddol gwahaniaethol yn Ardal 2 oni bai ei fod yn cael caniatâd gennym, ac rydym wedi penderfynu ymestyn hyn i gynnwys yr holl ffioedd (nid dim ond ffioedd rhent fel yn yr adolygiad blaenorol). Rydym hefyd yn poeni y gallai Openreach gynnig telerau masnachol sy'n atal darparwyr gwasanaethau rhynggrwyd rhag defnyddio rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd, gan amddifadu'r rhwydweithiau hyn o'r galw a thanseilio datblygiad cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn y tymor hir. Rydym wedi penderfynu y dylai Openreach barhau i orfod rhoi hysbysiad cyn cyflwyno telerau masnachol penodol, ac y dylid ymestyn y cyfnod rhybudd hwn o 90 diwrnod i 120 diwrnod. Mae hyn yn caniatáu i ni asesu unrhyw gytundebau cyn iddynt ddod i rym. Rydym hefyd wedi diweddarau ein canllawiau ar y mathau o gynigion masnachol y gallem ystyried eu bod yn broblemus ac, yn anad dim, sut y byddwn yn defnyddio ein gwaith rheoleiddio i ystyried amodau'r farchnad wrth benderfynu a ddylid caniatáu disgowntiau daearyddol neu delerau masnachol eraill. Gyda'n hatebion ar waith, rydym yn disgwyl y bydd cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn debygol o barhau i esblygu a datblygu dros gyfnod yr adolygiad hwn ac efallai y bydd sefyllfaoedd yn y dyfodol lle gallwn wneud ein safbwynt o ran cynigion Openreach yn llai llym. Rydym wedi darparu canllawiau ar sut y byddwn yn edrych ar bob cynnig a gyflwynir gan Openreach yng nghyd-destun amodau'r farchnad a chyflwr y gystadleuaeth ar y pryd ac yn adlewyrchu barn gyfredol o ran ein penderfyniad i gydsynio ai peidio.

Cefnogi'r broses o symud o hen rwydweithiau a gadael cyfnewidfeydd: mae cyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn yn alluogwr allweddol ar gyfer sicrhau trawsnewidiadau digidol i'r wlad, a fydd yn sicrhau manteision economaidd wrth i ddefnyddwyr a busnesau symud i wasanaethau gwell a mwy dibynadwy, ac wrth i hen rwydweithiau gael eu diddymu'n effeithlon. Mae ein dull gweithredu yn yr adolygiad hwn yn ceisio cefnogi'r newid hwn:

¹⁷ Mae'r dosbarthiad rhwng Ardal 2 ac Ardal 3 yn amrywio ledled y DU fel a ganlyn: Lloegr: 87% yn Ardal 2 / 13% yn Ardal 3. Gogledd Iwerddon: 98% yn Ardal 2 / 2% yn Ardal 3. Yr Alban: 83% yn Ardal 2 / 17% yn Ardal 3. Cymru: 79% yn Ardal 2 / 21% yn Ardal 3.

- Wrth i Openreach osod rhwydwaith ffeibr llawn newydd yn lle'r hen rwydwaith copr, ni ddylai orfod wynebu costau diangen wrth redeg dau rwydwaith cyfochrog. Rydym yn parhau i gefnogi rhoi'r gorau i ddefnyddio rhwydwaith copr Openreach, gan hwyluso amcanion ehangach yr adolygiad hwn, gan gynnwys hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau a diogelu defnyddwyr. Rydym wedi penderfynu cadw'r fframwaith presennol, sy'n trosglwyddo rheoleiddio (gan gynnwys diogelu prisiau) yn raddol o wasanaethau copr i wasanaethau ffeibr llawn, yn unol â'r dull a nodwyd yn 2021. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd yn ymgynghori ar amodau penodol o ran pryd y dylid cael gwared ar fesurau diogelu prisiau ar gyfer gwasanaethau copr.¹⁸
- Bydd Openreach hefyd yn dechrau gadael cyfnewidfeydd yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn ac mae trafodaethau ynghylch telerau ymadael penodol gyda'i gwsmeriaid yn mynd rhagddynt. Rydym yn cefnogi amcanion Openreach, sy'n rhoi cyfle i Openreach a darparwyr eraill gyfuno seilwaith, lleihau'r defnydd o ynni a chynyddu effeithlonrwydd. Rydym wedi penderfynu cynnal ein rheoleiddio presennol lle bo hynny'n briodol, er mwyn lliniaru'r risgiau i gystadleuaeth a defnyddwyr yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, yn ogystal â gwneud newidiadau i reolau ar gyfer gwasanaethau sy'n cysylltu cyfnewidfeydd â'i gilydd, i adlewyrchu'r broses o adael cyfnewidfeydd.

Parhau â'n dull o reoleiddio llinellau ar brydles yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r DU, i adlewyrchu lefel y gystadleuaeth bresennol neu bosibl: Rydym yn cydnabod bod amodau cystadleuol yn wahanol ar draws y DU ar gyfer cyflenwi gwasanaethau llinellau ar brydles, ac felly rydym wedi gosod ffiniau gwahanol yn y farchnad o gymharu â gwasanaethau band eang cyfanwerthol sy'n adlewyrchu gwahaniaethau yn y ffordd mae'r marchnadoedd wedi datblygu ers 2021 a sut rydym yn disgwyl iddynt ddatblygu dros y 5 mlynedd nesaf. Nid ydym yn edrych eto ar ein hasesiad blaenorol o Ardal Canol Llundain (CLA), sydd wedi cael ei dadreoleiddio ers 2019. Mewn manau eraill, rydym wedi penderfynu gosod rheoleiddio gwahanol mewn gwahanol ardaloedd fel a ganlyn:¹⁹

- *Ardal Cyrhaeddiad Uchel y Rhwydwaith (HNR)*, lle mae mwy o gystadleuaeth o lawer rhwng rhwydweithiau llinellau ar brydles, ond mae gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad o hyd. Yn yr ardal hon, sy'n cynnwys 9% o sectorau cod post y DU, rydym wedi penderfynu y dylai Openreach ddarparu mynediad at ei wasanaethau llinellau ar brydles am brisiau teg a rhesymol.
- *Ardal 2, lle mae cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy ar hyn o bryd, neu lle mae'n debygol y bydd potensial ar gyfer hynny.* Yn yr ardal hon, sy'n cynnwys 54% o sectorau cod post y DU, rydym wedi penderfynu parhau i fynnu bod Openreach yn darparu mynediad at ei wasanaethau llinellau ar brydles gweithredol, ac yn gosod capiau pris unffurf, wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant.
- *Ardal 3, lle nad oes cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy, a lle mae'n debygol nad oes potensial ar gyfer hynny.* Yn yr ardal hon, sy'n cynnwys 34% o sectorau cod post y DU (ac sy'n fwy nag Ardal 3 rydym wedi'i diffinio ar gyfer gwasanaethau band eang cyfanwerthol), rydym wedi penderfynu parhau i fynnu bod Openreach yn darparu ffeibr tywyll ac yn gosod prisiau ar sail ei gostau rhesymol. Ar ben hynny, rydym wedi

¹⁸ Ofcom. 2026. [Approach to the copper retirement second threshold calculation](#) – Adolygiad Mynediad Telathrebu 2026-31.

¹⁹ Dangosir maint yr ardal HNR, Ardal 2 ac Ardal 3 fel canran o'r sectorau cod post, ac eithrio Ardal Hull. Nid yw'r tair ardal yn 100%, ac mae gweddill y sectorau cod post yn y CLA.

penderfynu parhau i fynnu bod Openreach yn darparu mynediad at ei wasanaethau llinellau ar brydles gweithredol. Ar gyfer gwasanaethau gweithredol lled band uwch, rydym wedi penderfynu cynnal capiau pris unffurf, wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant wrth i'r farchnad newid i ffeibr tywyll. Ar gyfer gwasanaethau gweithredol lled band is (1 Gbit yr eiliad ac is), rydym wedi penderfynu gostwng prisiau yn unol â'r costau gan fod ffeibr tywyll yn ddewis arall llai deniadol na'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl yn 2021.

Marchnad cysylltedd rhyng-gyfnewid (IEC): Mae darparwyr telegyfathrebiadau yn defnyddio gwasanaethau IEC i gysylltu cyfnewidfeydd BT sydd wedi'u lleoli mewn gwahanol ardaloedd daearyddol er mwyn darparu traffig rhwng eu cwsmeriaid a'u rhwydweithiau eu hunain. Mae gwasanaethau IEC fel arfer yn defnyddio cynhyrchion tebyg i'r rheini yn y farchnad mynediad llinellau ar brydles, fel llinellau ar brydles ar wahanol led band a ffeibr tywyll. Rydym wedi penderfynu dadreoleiddio cyfnewidfeydd lle bu cynnydd ym mhresenoldeb cystadleuwyr ers ein hadolygiad diwethaf fel bod Openreach nawr yn wynebu dau gystadleuydd neu fwy. Mewn achosion lle mae Openreach yn wynebu un cystadleuydd neu ddim un cystadleuydd mewn cyfnewidfa, rydym wedi penderfynu ei gwneud yn ofynnol bod Openreach yn darparu ffeibr tywyll, gan osod prisiau i adlewyrchu costau rhesymol. O'i gymharu â'n dull gweithredu yn 2021, mae hyn yn ymestyn argaeledd ffeibr tywyll i gyfnewidfeydd lle mae un cystadleuydd yn bresennol neu gerllaw, oherwydd nid ydym yn disgwyl rhagor o fuddsoddiad cystadleuol sylweddol yn y cyfnewidfeydd hyn. Mae ein penderfyniadau yn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth drwy fynediad at ffeibr tywyll, sydd, yn ein barn ni, yn ateb deniadol ar gyfer gwasanaethau IEC, a diogelu defnyddwyr rhag prisiau uchel. Rydym hefyd wedi penderfynu parhau i fynnu bod Openreach yn darparu gwasanaethau IEC gweithredol o'r cyfnewidfeydd hyn ac yn cynnig gosod prisiau unffurf wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant.

Ansawdd y gwasanaeth (QoS): Rydym wedi penderfynu cynnal y rheolau presennol, yn fras, ar gyfer pa mor gyflym mae'n rhaid i Openreach drwsio a gosod ei brif gynhyrchion mynediad rhwydwaith mewn marchnadoedd sy'n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys band eang copr, Ether-rwyd a ffeibr tywyll. Fodd bynnag, er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwasanaethau band eang copr Openreach dros gyfnod yr adolygiad, rydym wedi penderfynu addasu sut mae perfformiad yn cael ei asesu. Lle mae'n fwy tebygol nad oes gan gwsmeriaid ddewis ond dibynnu ar Openreach am eu gwasanaethau band eang ffeibr llawn (h.y. Ardal 3), rydym yn gosod safonau Ansawdd Gwasanaeth ôl-stop newydd.

Ein dull gweithredu y tu hwnt i 2031: Yn unol â'r dull gweithredu a nodwyd gennym yn 2021, rydym yn cydnabod bod gan y buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud gan bob gweithredwr rhwydwaith mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits gyfnodau talu'n ôl hir a bod cystadleuaeth berthnasol yn cymryd amser i ddatblygu a dod yn gynaliadwy. Er y bydd ein penderfyniadau yn y dyfodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau sy'n bodoli pan fyddwn yn cynnal ein hadolygiadau nesaf, rydym yn ailadrodd sut byddem yn mynd i'r afael â phenderfyniadau yn y dyfodol. Gyda'n hatebion o'r adolygiad hwn ar waith, rydym yn disgwyl y bydd cystadleuaeth gan ddarparwyr newydd yn parhau i ddatblygu, gan ein rhoi ar y trywydd i ddadreoleiddio mwy fyth yn y dyfodol. Pan fydd cystadleuaeth effeithiol yn dod i'r amlwg ar gyfer gwasanaethau cyfanwerthol, ni fydd angen i Ofcom reoleiddio'r gwasanaethau hyn. Os byddwn yn credu bod buddsoddiad a chystadleuaeth gynaliadwy yn dal yn y broses o ddatblygu y tu hwnt i 2031, byddem yn disgwyl parhau i reoleiddio mewn ffordd sy'n parhau i gefnogi hyn. Os oes angen symud at reoleiddio Openreach yn seiliedig ar gostau yn y dyfodol, byddwn yn anrhydeddu'r egwyddor cynnig teg. Mae hyn yn golygu, wrth osod unrhyw reolaethau o ran prisiau, byddem yn disgwyl caniatáu i BT gadw'r fantais (h.y. enillion sy'n fwy na'i gost cyfalaf y mae wedi'i hennill hyd at y pwynt hwnnw), yn ogystal â

sicrhau ei fod yn gallu ennill ei gostau cyfalaf wrth symud ymlaen. Mae hyn yn golygu y byddai gan BT gyfle i ennill elw uwch na'i gost cyfalaf dros y cylch buddsoddi ffeibr cyfan.

1.16 Daw ein gwaith rheoleiddio newydd i rym ar 1 Ebrill 2026.